

## CYNGOR SIR FYNWY

### Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio County Hall, Usk - Remote Attendance Dydd Mawrth, 18fed Ionawr, 2022, 10.00 am

CYNGHORWYR YN BRESENNOL: Cynghorydd Sirol J. Treharne (Cadeirydd)  
Cynghorydd Sirol J. Higginson (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: A. Easson, R. Edwards, D. Evans, M. Lane,  
R. Roden, B. Strong, A. Webb, D. Blakebrough

#### SWYDDOGION YN BRESENNOL:

David Jones	Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Linda O'Gorman	Principal Licensing Officer
Ben Davies	Solicitor
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democraidd

#### YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol S. Howarth

##### 1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

##### 2. Cadarnhau'r Cofnodion canlynol:

###### 2.1. **Is-Bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio dyddiedig 7fed Medi 2021.**

Cafodd cofnodion yr Is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio dyddiedig 7<sup>fed</sup> Medi 2021 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

###### 2.2. **Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio dyddiedig 14eg Medi 2021.**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 14<sup>eg</sup> Medi 2021 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

###### 2.3. **Is-Bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio dyddiedig 12fed Tachwedd 2021.**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 12<sup>fed</sup> Tachwedd 2021 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

##### 3. Adolygiad o'r Ffioedd Trwyddedu Blynyddol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022/2023.

Cawsom adroddiad ynghylch y Ffioedd Trwyddedu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/2023.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol:

## CYNGOR SIR FYNWY

### **Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio County Hall, Usk - Remote Attendance Dydd Mawrth, 18fed Ionawr, 2022, 10.00 am**

- Roedd y ffioedd trwyddedu wedi'u rhewi ym mlwyddyn ariannol 2021/22 ac nid oedd asesiad wedi'i wneud.
- Asesir ffioedd drwy benderfynu faint o waith sydd wedi'i wneud dros gyfnod o amser. Mae'r broses wedi'i chymeradwyo gan Banel Trwyddedu ac Arbenigol Cymru Gyfan a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol ledled Cymru.
- Nid yw ffioedd dewisol ond wedi cynyddu ychydig, er enghraifft, mae ffioedd adnewyddu Gyrwyr Trwyddedig wedi cynyddu £11 dros gyfnod o dair blynedd, sy'n cyfateb i 31 ceiniog y mis.
- Ystyrir bod trwydded cerbyd hacni a dynnir gan geffyl yr un fath â thrwydded cerbyd hacni. Mae'r ddau yn destun yr un gwiriadau cyn rhoi trwydded gyda rhai gwahaniaethau bach.

Penderfynwyd:

- (i) cymeradwyo'r ffioedd a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad, o'r enw "Rhestr Ffioedd Trwydded ar gyfer 2022-23", yn ddarostyngedig, lle bo hynny'n berthnasol, i unrhyw hysbysiad cyhoeddus gofynnol.
- (ii) bod unrhyw wrthwynebiadau, a wneir yn briodol, ynghylch ffioedd ar gyfer rhoi trwyddedau ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn cael eu dwyn yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio cyn gynted â phosibl i'w hystyried yn briodol.

#### **4. Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth, 8fed Mawrth 2022 am 10.00am.**

Dydd Mawrth, 8fed Mawrth 2022 am 10.00am.